# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 16 Tachwedd 2011** |
| Amser: | **09:30 – 11:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_16_11_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Lisa Turnbull, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**<br>**Sue Thomas, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**<br>**Melanie Gadd, Y Gymdeithas Cynllunio Teulu**<br>**Jason Harding, Diabetes UK Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Mike Lewis (Dirprwy Glerc)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar a Lynne Neagle. Nid oedd neb yn dirprwyo.

### 2. Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru – tystiolaeth gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru

2.1 Bu’r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor ynghylch y cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y modelau a ddefnyddir i ddarparu gofal iechyd sylfaenol yn Lloegr.

## 3. Ymchwiliad i’r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru - tystiolaeth gan Diabetes UK Cymru a'r Gymdeithas Cynllunio Teulu

3.1 Bu’r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor ynghylch y cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

3.2 Cytunodd y Gymdeithas Cynllunio Teulu i ddarparu’r canlynol:

- Ffigurau ar nifer y fferyllfeydd yng Nghymru sy’n cymryd rhan yn y cynllun atal cenhedlu hormonaidd brys (EHC); a
- Rhagor o fanylion ynghylch a oes amrywiaeth ledled Cymru yng ngallu’r rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol i ddarparu gwasanaethau EHC.

3.3 Gofynnodd y Pwyllgor am nodyn gan ei ysgrifenyddiaeth sy’n archwilio i ba raddau mae trefniadau ar waith i fferyllwyr drosglwyddo’u hyfforddiant a’u cymwysterau ar draws ffiniau byrddau iechyd lleol gwahanol a rhwng Cymru a Lloegr.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethu Cymdeithasol yn cynnwys y wybodaeth ychwanegol am gyllideb ddrafft 2012-13. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am gadarnhad o’r union ffigur a ddefnyddiwyd gan y Llywodraeth, wrth gyfrifo’r gyllideb, i adlewyrchu’r chwyddiant ym maes iechyd.

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.24(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig i wahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer eitem 6 yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi).

## 6. Ymchwiliad i leihau'r risg o strôc - trafodaeth breifat am y prif faterion

6.1 Trafododd y Pwyllgor brif negeseuon ac argymhellion yr ymchwiliad i leihau'r risg o strôc.

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.